# Fforwm Rheoli Tir Cymru

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 22 Tachwedd 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Ruth Jenkins, CNC

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Dennis Matheson, TFA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Hedd Pugh, NFU Cymru

Anthony Geddes, Confor

Martyn Evans, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Fraser McAuley, CLA

Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru

Phil Ellis, CFfI Cymru

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Sarah Williams, CNC (Eitem 3 yn unig)

Patrick Cowdry, Llywodraeth Cymru (Eitem 4 yn unig)

Ken Bevan, CNC (Eitem 9 yn unig)

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Bob Vaughan, CNC

Vicky Jones, Llywodraeth Cymru

Ceri Davies, CNC

John Browne, CNC

Tim Kirk, Confor

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn cysylltiad â'r eitemau ar yr Agenda.

3. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

4. Cyflwynodd Zoe westeion i'r cyfarfod, gan gynnwys:

    - Phil Ellis, Prif Weithredwr newydd CFfI Cymru
    - Sarah Williams, CNC, i drafod yr Adferiad Gwyrdd
    - Patrick Cowdy, Llywodraeth Cymru, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Greu Coetir a'r Archwiliad Dwfn
    - Ken Bevan, CNC, i drafod ymgysylltu â rhanddeiliaid o blith ffermwyr ar gyfer prosiect yn y Gogledd-ddwyrain.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw faterion sy'n codi

5. Adolygodd y Grŵp gofnodion cyfarfod mis Medi 2021, a chadarnhawyd eu bod yn gofnod cywir. Mae cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol, a byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC.

6. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, beth oedd yr amserlen o ran yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth. Dywedodd Ruth Jenkins, CNC, nad oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer y

sesiynau bioamrywiaeth, ond bod yr archwiliad dwfn o ynni adnewyddadwy yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

7. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, ei sgrin ac adolygodd y grŵp y Log Gweithredu, a nodwyd y sylwadau canlynol:

   - PG02 Medi: Ruth a Martyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr achosion hysbys o gwympo coed yn anghyfreithlon er mwyn deall maint y broblem, sut mae CNC wedi ymateb a lefel yr adnoddau ar dimau gorfodi a gweithredol.

     - Dywedodd Ruth nad yw wedi derbyn y ffigurau eto mewn perthynas â chwympo coed yn anghyfreithlon. Ar yr un pryd, gofynnodd Ruth am adnoddau gan mai'r un adnoddau CNC fwy neu lai sy'n ymdrin â chwympo coed yn anghyfreithlon a cheisiadau am drwyddedau cwympo coed, ac y byddai'n ddiddorol edrych ar y ddau beth hyn. Nid yw mwy o geisiadau am drwyddedau cwympo coed yn syndod mewn blwyddyn lle mae prisiau pren wedi codi'n eithaf sylweddol, ac mae coedwigwyr hefyd yn ymdrin â llawer iawn o faterion yn ymwneud â phethau fel clefyd y llarwydd. Dywedodd Ruth fod CNC wedi gweld cynnydd o 9% ers y llynedd a chredir y gallai fod yn uwch mewn gwirionedd. Mae CNC wedi derbyn tua 387 o geisiadau yn ystod 2021 hyd yma, sef cynnydd o naw y cant, ond gallai fod yn fwy erbyn diwedd y flwyddyn. Dywedodd Ruth ei bod yn disgwyl bod cryn dipyn o bwysau ar y timau gweithredol hynny, gan eu bod yn ymwneud â chefnogi ceisiadau am drwyddedau cwympo coed, yn ogystal â gorfod ymchwilio i gwympo coed yn anghyfreithlon. Mae Ruth yn ymwybodol bod cynnydd wedi bod yn nifer yr achosion o gwympo coed yn anghyfreithlon mae CNC wedi gorfod ymdrin â nhw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond nid oes ganddi'r ffigurau ar gyfer eleni eto.

     - Dywedodd Anthony Geddes, Confor, ei fod wedi codi hyn yn ystod y cyfarfod ym mis Medi a'r cefndir iddo oedd bod Confor wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion honedig o gwympo coed yn anghyfreithlon. Dywedodd Anthony eu bod hefyd wedi gweld estyniad enfawr yn yr amser y mae'n ei gymryd i brosesu trwyddedau cwympo coed. Soniodd Anthony hefyd fod lefel y sgiliau a'r profiad wedi newid o fewn CNC a bod cyfle gwirioneddol i hyfforddi a chefnogi rhai o'r staff hynny fel y gallant fynd allan i safleoedd ac adnabod achosion o gwympo coed yn fwriadol neu'n anghyfreithlon yn gyflym iawn. Mae gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth yn bwysig.

     - Esboniodd Ruth fod gwelliannau i'w gwneud ar y ddwy ochr, er enghraifft, o'r 447 o geisiadau sydd wedi'u cofrestru, efallai fod 140 wedi'u dychwelyd gan nad oeddent yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol neu am eu bod yn cynnwys mapiau gwael iawn neu fod gwybodaeth ar goll. Felly mae hynny hefyd yn arafu'r broses ar gyfer trwyddedau cwympo coed, ond mae problemau ar y ddwy ochr.

     - Cydnabu Anthony bwynt Ruth am faterion gweithredol, ond erys y materion sy'n ymwneud ag adnoddau.

- Trafododd Ruth y gwaith yn edrych ar y math o wasanaeth sylfaenol y mae CNC yn ei ddarparu gyda'r adnoddau sydd ar gael ar draws y busnes.

- Gofynnodd Hedd Pugh, NFU Cymru, a yw'r safleoedd cwympo coed yn anghyfreithlon hyn yn ardaloedd mawr. Dywedodd Ruth nad oedd ganddi ddata, ond byddai'n awgrymu cymysgedd efallai.

- Dywedodd Phil Ellis, CFfI Cymru, fod Carol (Cadeirydd CFfI Cymru) ac yntau wedi cyfarfod â'r Gweinidog Newid Hinsawdd ac wedi codi'r pwynt am sgiliau. O safbwynt pobl ifanc, un o'r pethau mae Llywodraeth Cymru am eu gwneud yw buddsoddi yn y set sgiliau honno. Awgrymodd Phil efallai fod hyn yn rhywbeth y gallai'r grŵp hwn ei drafod ychydig yn fwy eang.

- Soniodd Ruth fod CNC wedi gwneud rhywfaint o waith yn datblygu cyfleoedd prentisiaeth yn ochr goedwigaeth y busnes a'u bod yn cynnig rhai cyfleoedd dan y cynllun Kickstart i bobl ifanc yn y sefydliad.

- Dywedodd Fraser fod rhai problemau gyda CNC megis prinder staff neu arbenigedd, a gofynnodd a oes cynllun gan Lywodraeth Cymru i edrych ar y problemau hynny a gweld a ellir mynd i'r afael â nhw.

- Dywedodd Ruth fod CNC yn amlwg yn sgwrsio â Llywodraeth Cymru am lawer o bethau ar draws y busnes, gan gynnwys fforddiadwyedd a chyllidebau. Rydym yn cydnabod ei fod yn fater pwysig, mae CNC yn rheoli busnes coedwigaeth, ac mae'n bwysig gallu dod â phobl i mewn a'u hyfforddi. Mae'n bwysig hefyd ddefnyddio'r bobl brofiadol a medrus yn y busnes i helpu i hyfforddi eraill, a dod â darparwyr hyfforddiant i mewn i gefnogi staff.

- Soniodd Anthony fod yr ICF, Lantra a Confor wedi bod yn gwneud darn o waith ar y cyd ynghylch astudiaeth ac arolwg sgiliau. Cyhoeddir canlyniadau'r arolwg prinder sgiliau ar wefan Lantra ac mae her genedlaethol i goedwigaeth.

• AP05 Medi: Ruth Jenkins, CNC, a Martyn Evans, CNC, i gyflwyno sylwadau Anthony ynghylch yr ymgynghoriad ar adolygiad CNC o Ddatganiadau Ardal.

  - Dywedodd Ruth fod y sylwadau wedi'u bwydo'n ôl ac y byddant yn cael eu hystyried yn y gwaith mae CNC yn ei wneud drwy'r ymgynghoriad a'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw.

## Eitem 3 Trafodaeth ar yr Adferiad Gwyrdd

8. Atgoffodd Sarah Williams, CNC, y grŵp o ble y daeth y grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd a'r cyd-destun y tu ôl iddo.

9. Amlinellodd Sarah yr hyn a olygir wrth 'Adferiad Gwyrdd':

   **'Gwyrdd':**

   - Gwrthdroi'r dirywiad mewn natur (argyfwng natur)

- Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chynyddu'r gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
- Mynd i'r afael â phatrymau cynhyrchu a defnyddio anghynaliadwy (yr economi gylchol)

Rhaid canolbwyntio ar BOB UN o'r tair elfen, yn hytrach nag elfennau unigol ar wahân

**'Adferiad':**

- Economaidd – buddsoddiad sy'n cefnogi creu swyddi a marchnadoedd newydd
- Cymdeithasol - targedu camau i'r grwpiau, y cymunedau a'r lleoedd hynny sydd fwyaf agored i niwed/ sydd wedi cael eu taro waethaf i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac amddifadedd sylfaenol.

10. Soniodd Sarah am y camau a flaenoriaethwyd ar gyfer adferiad gwyrdd a oedd yn canolbwyntio ar ochr ymarferol pethau, gan sicrhau ei fod yn cysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i fod yn canolbwyntio'n fawr ar atgyfnerthu agweddau ac ymddygiadau cadarnhaol.

11. Mae'r Grŵp Adferiad Gwyrdd yn grŵp annibynnol, yn hytrach na grŵp sy'n cynrychioli sector. Roedd yn rhoi adborth i Grŵp Bord Gron Lesley Griffiths. Mae'n grŵp o bobl brofiadol o bob rhan o Gymru sydd â safbwyntiau gwahanol sy'n cynrychioli amrywiaeth o fusnesau, awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau ac sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder cymdeithasol.

12. Galwodd y Grŵp am syniadau da a derbyniwyd 168 o gynigion. Roedd y cynigion hyn yn sail i'r Adroddiad ar Flaenoriaethau Gweithredu'r Adferiad Gwyrdd, Cyflawni yn erbyn Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu:

    - Atebion ar sail Natur
    - Trawsnewid systemau economaidd-gymdeithasol
    - Hwyluswyr yr Adferiad Gwyrdd

13. Soniodd Sarah fod Grŵp Adferiad Gwyrdd Cymru wedi comisiynu adroddiad yn edrych ar sefydlogrwydd a gwydnwch y sector amgylcheddol yn ystod y pandemig, a gwnaeth yr adroddiad argymhellion dros y tymor byr, canolig a hwy:

    Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r Sector Amgylcheddol yng Nghymru

    - Wedi hwyluso tua £900,000 i'r sector
    - Sefydlu grŵp eNGO i alluogi gweithredu pellach ar yr argymhellion

14. Amlinellodd Sarah rai o'r cynigion wrth symud ymlaen drwy Grŵp Adferiad/Trawsnewidiad Gwyrdd a Theg:

- Adeiladu ar ynni, momentwm a phŵer cyfunol
- Cynyddu cysylltiadau â'r sector busnes a sefydliadau angori
- Canolbwyntio ar ddileu rhwystrau sy'n atal cynnydd a chyflymu arloesedd.
- Mapio'r ddarpariaeth ar gyfer pob un o bortffolios y Llywodraeth – cefnogi pob Gweinidog i gyflawni ymrwymiadau penodol.
- Gweithio gydag offer gofodol i alluogi targedu gwaith at ardaloedd a chymunedau sydd â'r angen mwyaf.

15. Diolchodd Zoe i Sarah am ei chyflwyniad a gofynnodd beth yw 'gwasanaeth natur cenedlaethol' a beth y gallai ei wneud. Eglurodd Sarah fod gwasanaeth natur cenedlaethol yn ymwneud â darparu cyfleoedd i bobl ifanc gysylltu â natur drwy amrywiaeth o gyfleoedd, megis gwirfoddoli, cyflogaeth â thâl, lleoliadau drwy'r cynllun Kickstart neu brentisiaethau. Mae'n llwybr i unigolyn ddechrau ymwneud â natur a chadw at y gair 'natur'. Mae'n gallu golygu gweithio mewn canolfan neu warchodfa natur genedlaethol, neu weithio ar fferm neu mewn amgylchedd ffermio neu mewn amgylchedd coedwigaeth.

16. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, nad oedd cynrychiolwyr ffermwyr wedi'u cynnwys yn y Grŵp Adferiad Gwyrdd gwreiddiol. Gofynnodd Dennis a oes unrhyw gynrychiolwyr ffermwyr ar unrhyw un o'r grwpiau a enwyd yn y cyflwyniad ar hyn o bryd. Dywedodd Sarah na fwriadwyd erioed iddo fod yn grŵp a oedd yn cynrychioli sectorau. Roedd Sue Pritchard ar y grŵp o'r cychwyn cyntaf ac mae ganddi bersbectif a dealltwriaeth eang iawn o fwyd a ffermio. Dywedodd Sarah fod Sue yn ffermwr o'r Canolbarth, felly roeddent yn teimlo, drwy ei gwybodaeth a'i rhwydwaith, fod ganddi'r gallu i estyn allan at ffermwyr, rheolwyr tir a phobl fwyd a dod â'u safbwynt nhw i'r trafodaethau.

17. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, nad etholwyd Sue yn ddemocrataidd, ac nad oes gan y grŵp aelodaeth sy'n cynrychioli sefydliadau, yn wahanol i'r sefydliadau o amgylch y bwrdd yn y cyfarfod heddiw.

    Soniodd Rachel fod adroddiad corff anllywodraethol ochr yn ochr â'r adroddiad adferiad gwyrdd. Dywedodd Rachel ei bod yn pryderu am rai o'r sylwadau ynghylch cyllid craidd a gofynnodd pa ddadansoddiad sy'n sail i'r adroddiad hwnnw ynglŷn â graddfa. Soniodd Rachel fod sector yr amgylchedd yn gwneud cryn dipyn o lobïo gwleidyddol ac y byddai'r posibilrwydd o ddarparu cyllid craidd i sefydliadau sydd wedyn yn mynd ymlaen i lobïo yn peri tipyn o syndod. Esboniodd Rachel, o safbwynt undebau ffermio, na fyddent yn mynd at y llywodraeth am gyllid craidd i ariannu eu gweithgarwch. Holodd Rachel pa fath o ddadansoddiad sydd wedi'i wneud i ategu'r adroddiad a gofynnodd a oes unrhyw un arall wedi gwneud y sylw hwnnw hefyd. Dywedodd Sarah fod yr adroddiad a adroddwyd i'r grŵp yn un annibynnol a bod y ganolfan ariannu wedi cynnal cyfres o gyfweliadau gyda thrawstoriad cyfan o sefydliadau amgylcheddol sy'n gweithredu ledled Cymru. O ran cyllid craidd, esboniodd Sarah fod hyn, o safbwynt CNC a Llywodraeth Cymru, yn rhywbeth y maent wedi symud oddi wrtho. Felly, yn y trafodaethau rhwng CNC a Llywodraeth Cymru ac wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion hynny, maent yn glir iawn nad yw cyllid craidd yn rhan o'r fargen. Mae'n edrych ar gyfres o opsiynau eraill a nodir yn yr adroddiad hwnnw ond, ar hyn o bryd, ni fydd CNC na Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd i sefydliadau sector yr amgylchedd.

18. Gofynnodd Anthony a oes crynodeb o'r prosiectau sy'n cael eu datblygu. Soniodd Anthony fod y Gweinidog Newid Hinsawdd wedi cyhoeddi prosiect newydd, sef prosiect y Gylfinir yn y Canolbarth. Dywedodd Sarah nad oes ganddynt adroddiad cryno ond y byddent yn ceisio crynhoi rhywbeth yn y dyfodol. Cadarnhaodd Sarah fod Prosiect y Gylfinir ar wahân a'i fod yn annibynnol ar y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd.

***PG 01 Tachwedd: Bronwen Martin, CNC, i ofyn i Sarah Williams, CNC, am grynodeb o waith y Prosiect Adferiad Gwyrdd.***

## Eitem 4 Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Greu Coetir a'r Archwiliad Dwfn

19. Ymunodd Patrick Cowdy, Llywodraeth Cymru, â'r grŵp i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd mewn perthynas â Chreu Coetir a'r Archwiliad Dwfn.

20. Rhoddodd Patrick gefndir i'r Archwiliad Dwfn Creu Coetir a rhannodd ddiagram cryno - Argymhellion y Tasglu Coed a Phren

21. Galwyd am yr archwiliad dwfn gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Walters. Y prif nod oedd nodi cyfres o gamau gweithredu i gynyddu plannu coed a goresgyn rhwystrau i greu coetir ac ystyried targedau'r llywodraeth, yn enwedig targedau UK CCC. Cafodd grŵp o arbenigwyr eu dewis o blith amrywiaeth o sefydliadau i fod yn rhan o hyn.

22. Un o'r nodau oedd edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y gorffennol o ran creu coetir a dysgu gwersi ohono. Gwnaethant edrych hefyd ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd mewn gwledydd eraill, megis y cynllun plannu coed yn Affrica, gan eu bod wedi bod yn eithaf llwyddiannus o ran sicrhau plannu cymunedol.

23. Cynhaliwyd wyth cyfarfod a thair bord gron i gynnwys y sector ffermio ehangach. Mae'r 39 argymhelliad cychwynnol bellach wedi dod yn gamau gweithredu, gyda rhai yn rhai tymor byrrach ac eraill yn rhai tymor hwy.

24. Disgrifiodd Patrick y cynllun plannu coed cymunedol a ddatblygwyd i helpu pobl i gael arian ar gyfer plannu coed mewn ardaloedd cymunedol. Disgwylir i'r cynllun hwn gael ei lansio'n fuan. Mae creu newid diwylliant o ran plannu coed yn bwysig hefyd, ac mae angen canllaw hawdd ei ddefnyddio ar blannu coed.

25. Dywedodd Patrick eu bod hefyd yn edrych ar blanhigfeydd o ran cyllid a hefyd i sicrhau cyflenwadau yn y dyfodol. Mae yna Grŵp Planhigfeydd Confor y mae Fiona McFarlane wedi bod yn ymwneud ag ef i edrych ar gyflenwad coed ar draws y tair gwlad. Mae cynnydd enfawr yn y galw yn sgil y targedau uwch.

26. Soniodd Patrick eu bod hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr ar Glastir - Creu Coetir. Agorodd Glastir - Creu Coetir (ffenestr 11) ym mis Medi 2021 - Creu Coetir Glastir (ffenestr 11, Medi 2021). Gwnaethant edrych ar welliannau i'r cynllun megis cyflymu'r broses wirio ar gyfer cynlluniau coetir risg isel ar arwynebeddau bach lle nad ydynt yn sensitif.

27. Dywedodd Patrick eu bod bellach yn edrych ar yr hyn a fydd yn olynydd i Glastir, gyda chynllun y gellir ei lansio ym mis Ebrill a fydd, gobeithio, yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau a nodwyd gan y gweithgor.

28. Wrth symud ymlaen, mae dau weithgor. Mae un yn edrych ar ddatblygu strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren y mae Anthony Geddes yn weithgar iawn ynddo. Mae gweithgor arall yn edrych ar ariannu a chyflwyno cyllid gan y sector preifat i helpu i ariannu'r broses o greu coetir.

29. Mae llawer o bryder hefyd ynghylch effeithiau negyddol posibl Creu Coetir megis niweidio cymunedau lleol, ond mae'r gweithgorau'n edrych yn ofalus iawn ar yr heriau hyn.

30. Bydd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, Lee Waters, yn mynychu Cynhadledd Flynyddol Ystadegau Cymru ar 2 Rhagfyr 2021 a bydd yn trafod, ymhlith pethau eraill, creu coetir a phlannu ar dir y sector cyhoeddus. Bydd cyflwyniad hefyd am Brosiect 'One Million Trees' Belfast sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran unedau plannu coed trefol a chael y gymuned i gymryd rhan.

31. Wrth symud ymlaen, bydd cyfarfodydd y gweithgorau yn parhau. Mae'r Grŵp Cyllid yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar ddiwedd 2021 gyda'r Grŵp Strategaeth Ddiwydiannol yn parhau.

32. Diolchodd Zoe i Patrick am ei ddiweddariad a chroesawodd gwestiynau.

33. Soniodd Dennis Matheson, TFA, nad yw'r pryderon a'r bygythiadau gwirioneddol i'r sector tenantiaeth wedi cael sylw priodol a bod TFA Cymru wedi bod yn ceisio trefnu cyfarfod, yn aflwyddiannus, ers yr archwiliad dwfn. Awgrymodd Dennis y gallai olygu diwedd y system landlord a thenant yng Nghymru yn y pen draw, felly rhaid mynd i'r afael â hyn. Cadarnhaodd Dennis fod yr holl bryderon hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Creu Coetir a sefydlwyd gan Fforwm Rheoli Tir Cymru a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

    Dywedodd Patrick mai un o'r mannau cychwyn ar gyfer yr archwiliad dwfn oedd adroddiad Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Greu Coetir, ac roeddent yn ddiolchgar iawn am hynny. Edrychodd y grŵp ar ffyrdd o ddileu'r rhwystrau hyn i symud ymlaen. Dim ond cyfran fach o'r hyn sydd ei angen yw lefelau uwch o greu coetir. Trafodwyd mater ffermydd tenant yn ystod yr archwiliad dwfn a hefyd o fewn y gweithgorau, ond yn enwedig y gweithgor cyllid, sydd wedi bod yn edrych ar sut i'w gwneud yn deg i ffermwyr tenant i osgoi rhai o'r risgiau.

    Dywedodd Anthony fod llawer iawn o ffocws a mewnbwn wedi bod i sicrhau bod rôl ffermwyr tenant yn cael ei chefnogi a'i chynnwys i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

    Awgrymodd Zoe y gallai Patrick gysylltu â Dennis i barhau â’r drafodaeth hon.

***PG 02 Tachwedd: Bronwen Martin, CNC, i rannu manylion Dennis Matheson gyda Patrick Cowdy, Llywodraeth Cymru.***

34. Bu Phil Ellis, CFfI Cymru, yn trafod cynlluniau echdynnu yn ei gymuned lle mae perchnogion tir yn bwriadu echdynnu pren a blannwyd yn y 1970au. Yn anffodus,

maent yn ceisio cyrraedd y pren ar hyd lonydd nad ydynt wedi tyfu gyda maint y peiriannau cynaeafu, ac mae hynny'n achosi problemau mewn cymunedau lleol. Awgrymodd Phil efallai fod hyn yn rhywbeth i'w ystyried. Cytunodd Zoe fod angen ystyried y canlyniadau a'r effeithiau anfwriadol hyn.

Soniodd Ruth Jenkins, CNC, fod yna Fforwm Cludo Pren ac y gallai'r mater hwn fod yn rhywbeth i'w godi a'i drafod drwy'r grŵp hwnnw - Fforwm Cludo Pren - Cymru.

35. Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod gwaith yr ail weithgor wedi'i ddisgrifio fel 'cyllid gan y sector preifat yn ceisio peidio â niweidio cymunedau'. Gofynnodd Bernard faint o drafodaeth a gafwyd ynghylch y mater 'cipio tir', gyda phobl o sectorau eraill yn prynu tir er mwyn plannu coed a gwrthbwyso eu hôl troed carbon eu hunain, o sectorau sy'n llygru yn bennaf – a ystyriwyd hyn o fewn y gweithgor.

Cadarnhaodd Patrick fod hyn yn cael ei ystyried a'i fod wrth wraidd y trafodaethau ar hyn o bryd gan fod llawer o gwestiynau am hyn, ond mae'n faes cymhleth iawn. Mae tua 11 neu 12 o opsiynau ar y bwrdd o ran gwahanol ffyrdd y gall pethau weithio, ond nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto. Dywedodd Patrick eu bod hefyd yn agored i awgrymiadau ac yn croesawu unrhyw awgrymiadau gan ei fod yn faes heriol.

Gofynnodd Bernard, o'r 11 neu 12 o opsiynau, a yw rhai o'r opsiynau yn rhai cyfreithiol yn edrych ar ddeddfwriaeth. Dywedodd Patrick nad ydynt yn edrych ar ddeddfwriaeth yn benodol ar yr ochr gyllid, ond efallai fod hynny'n rhywbeth i'w ystyried hefyd.

## Eitem 5 Trosolwg o Bapur Polisi 'Tyfu Gyda'n Gilydd' NFU Cymru

36. Diolchodd Rachel i Zoe am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth NFU Cymru - Tyfu Gyda'n Gilydd. Roedd Rachel wedi sôn am yr adroddiad hwn cyn ei gyhoeddi yn y cyfarfod diwethaf a dosbarthwyd dolen i'r grŵp pan gafodd ei gyhoeddi gyntaf.

37. Rhoddodd Rachel gefndir byr i'r papur polisi NFU Cymru hwn. Datblygwyd y papur gan Fwrdd Materion Gwledig NFU Cymru o dan gadeiryddiaeth Hedd. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu yng nghyd-destun y targedau uchelgeisiol iawn ar gyfer plannu coed yng Nghymru (180,000 hectar erbyn 2050). Ar raddfa fferm, esboniodd Rachel eich bod yn sôn am nifer eithaf sylweddol o ffermydd (3,750 o ffermydd maint cyfartalog). Mae'r adroddiad hwn yn caniatáu i ffermio fod yn rhan o'r ateb ac mae hefyd yn cyd-fynd ag NFU Achieving Net Zero 2040, y mae ei ail golofn yn ymwneud â gwella lefelau atafaelu carbon ar ffermydd Cymru.

38. Trafododd Rachel rai heriau gan gynnwys targedau plannu coed, yn ogystal â'r mater 'cipio tir' mewn cymunedau gwledig. Dywedodd Rachel fod y tair fferm ddiwethaf sydd wedi'u gwerthu yn ei chymuned leol wedi'u gwerthu i fuddsoddwyr allanol i'w coedwigo'n llwyr. Mae hon yn sefyllfa sy'n codi ar lawr gwlad ac mae'n bryder mawr i aelodau NFU Cymru.

39. Mae cyd-destun yr adroddiad yn ymwneud â:

- bwrw ymlaen â'r targedau hyn mewn modd a all ddiogelu cymunedau gwledig

- sicrhau bod y newid i Sero Net yn un sy'n gynaliadwy ac yn deg i bawb mewn cymdeithas

- bod targedau plannu coed yng Nghymru yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n gyfrifol yn fyd-eang ac nad yw'n arwain at allforio cynhyrchu bwyd ac effeithiau newid yn yr hinsawdd yn rhannau eraill o'r byd, lle mae safonau amgylcheddol a safonau iechyd a lles anifeiliaid yn aml yn is.

40. Soniodd Rachel am Adroddiad Hybu Cig Cymru: Y Ffordd Gymreig sy'n dangos bod gan Gymru hanes da o gynhyrchu cig coch yn gynaliadwy, felly mae'n ymddangos yn afresymegol ein bod yn allforio cynhyrchu bwyd i fannau eraill yn y byd.

41. Amlinellodd Rachel fod y Bwrdd Materion Gwledig wedi nodi'r hyn y teimlant oedd y prif rwystrau i blannu coed ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys economeg a'r ffaith na all rhai ffermwyr ddisgwyl 40 mlynedd am gnwd o bren. Mae'r adroddiad hefyd yn trafod rhai o'r galluogwyr polisi a rhai o'r anawsterau y mae ffermwyr yn eu hwynebu ar raddfa fferm wrth blannu, gan gynnwys y problemau sy'n gysylltiedig â Glastir - Creu Coetir, yn enwedig y ffaith ei fod ar hyn o bryd yn seiliedig ar fynd i gostau, colli incwm, a'r ffaith nad yw'r cyfraddau talu hynny wedi cadw i fyny â chostau cynyddol. Atgoffodd Rachel y grŵp hefyd fod bron i 30% o'r tir yng Nghymru o dan ryw fath o gytundeb tenantiaeth, sy'n atal arwynebedd enfawr o dir rhag cynyddu gorchudd coed.

42. Soniodd Rachel fod aelodau NFU Cymru hefyd yn pryderu am y lefelau risg. Mae perygl nad yw rhai o'r coed a blannir yn byw neu efallai na fydd yr amodau'n addas, felly efallai na fydd modd sicrhau llwyddiant yn y ffordd ddisgwyliedig. Mae risgiau hefyd yn gysylltiedig â chlefydau coed megis clefyd coed ynn. Mae marchnadoedd carbon hefyd yn farchnad newydd sy'n esblygu, gydag ansicrwydd a risg.

43. Ailadroddodd Rachel fod yr adroddiad hwn yn ymwneud â lleoli ffermio fel yr ateb i gyflawni'r targedau plannu coed ac amlinellu amryw o gyfleoedd allweddol ar yr un pryd. Mae llawer o ffermwyr yng Nghymru yn barod i gynyddu gorchudd coed ar eu ffermydd os cânt eu gwobrwyo am wneud hynny, ond mae angen iddo fod ar y raddfa briodol ac yn y lleoliad priodol. Mae ffermwyr yn barod i blannu lleiniau cysgodi, gwrychoedd, coridorau ar ochr nentydd, gylïau, corneli caeau a hyd yn oed hyd at raddfa parseli tir gyda chymysgedd o goed a llwyni brodorol a rhywogaethau conwydd hefyd. Nid yw ffermwyr ychwaith yn gwrthwynebu'r syniad o blannu cnydau pren masnachol, ond maent am wneud hynny ar y raddfa briodol ac yn y lle iawn.

44. Roedd Rachel yn cydnabod bod cymdeithas am weld coed yn cael eu plannu am sawl budd, ond mae angen gwobrwyo hynny'n briodol ac mae angen i'r cyfraddau fod yn gystadleuol.

45. Daw'r adroddiad i ben gydag amryw o dasgau allweddol sy'n adlewyrchu'r dadansoddiad. Dywedodd Rachel eu bod am weld:

    - Sefydlu Comisiwn Pontio teg i sicrhau nad yw'r baich datgarboneiddio yn disgyn yn anghyfartal ar gymunedau gwledig.

    - Sefydlu fframwaith gwneud penderfyniadau i lywio penderfyniadau arwyddocaol ynghylch defnydd tir ac ystyried effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

- Dylai Bil yr Amgylchedd hefyd gynnwys mecanweithiau i sicrhau bod ein diogelwch bwyd a'n gallu cynhyrchu amaethyddol hefyd yn cael eu monitro, eu cynnal a'u gwella, ochr yn ochr â thargedau strategol eraill.

- Dulliau ariannu priodol sy'n symud y tu hwnt i gyfrifiadau talu costau, colli incwm ac sy'n caniatáu incwm rheolaidd o goetir fferm.

- Mae'r mater tenantiaeth hefyd yn bwysig iawn i NFU Cymru ac maent am weld diwygiadau i denantiaethau sy'n caniatáu i ffermwyr tenant allu plannu coed ar y raddfa briodol ar eu tir. Ond mae angen y mesurau diogelu hynny arnom hefyd i sicrhau nad yw tenantiaid a ffermwyr tir comin yn cael eu symud o'u tir wrth i gynlluniau plannu coed gael eu datblygu.

46. Cytunodd Hedd fod ffermwyr yn awyddus i blannu coed, ond rhaid plannu'r goeden iawn, yn y lle iawn. Mae cael y wobr ariannol gywir yn bwysig hefyd, yn enwedig yn y tymor hir gan na all pawb ddisgwyl 40 mlynedd am yr elw. Gallai amaeth-goedwigaeth fod y ffordd ymlaen, ond nid yw bob amser yn briodol ar gyfer cynhyrchu bwyd. Fodd bynnag, cadarnhaodd Hedd nad ydynt am weld coedwigo ar raddfa fawr gan y bydd hyn yn effeithio ar ddiwylliant Cymru.

47. Dywedodd Phil Ellis, CFfI Cymru, mai ei brif bryder yw'r effaith y bydd yn ei chael ar bobl ifanc, yn enwedig o ran sicrwydd economaidd. Esboniodd Phil fod rheoli cae yn cymryd mwy o amser a mwy o lafur na rheoli coetir, dros gyfnod o 40 mlynedd. Felly, yng nghyd-destun coetir dros y 40 mlynedd hwnnw, mae llawer llai o waith a byddai llai o gyfleoedd gwaith i bobl iau. Atgoffodd Phil y grŵp fod angen i ni sicrhau ein bod yn ystyried yr effaith economaidd ar ein Cymru leol a gwledig. Mae dwy ochr i hyn hefyd; mae'r effaith uniongyrchol ar ffermwyr a chyfleoedd gwaith, ac yna mae'r effaith eilaidd, sef llai o arian yn cael ei wario'n uniongyrchol mewn cymunedau gwledig. Rhoddodd Phil enghraifft o'r gwahaniaeth rhwng mynd ag ŵyn i farchnad leol a mynd â phren i felin lifio sydd o bosibl wedi'i lleoli dros y ffin neu mewn rhan arall o Gymru efallai. Mae'n ymwneud â sut rydym yn sicrhau ein bod yn cadw cymaint o'r gweithgarwch hwnnw yn y Gymru wledig.

48. Atgoffodd Anthony ni am rôl ffermwyr o ran datgarboneiddio. Y targed o 180,000 hectar yw'r targed a ryddhawyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd; nid yw'n darged i Gymru; mae'n ffigur annibynnol. Mae'r ffigur hwnnw'n cynnwys yr hyn sydd ei angen ar gyfer datgarboneiddio ledled Cymru, gan gynnwys yr hyn sydd ei angen i ddatgarboneiddio'r sector ffermydd lle na all leihau ei allyriadau i sero. Gofynnodd Anthony i Rachel a yw NFU Cymru wedi datblygu eu barn ymhellach ar y cam nesaf hwnnw o'r cyfrifoldeb carbon sydd gan ffermwyr? Oherwydd mae'r ffigurau hynny o 180,000 hectar o goedwigo yn rhan o'r offeryn i'r holl ddiwydiannau, yr holl gymunedau a'r holl fusnesau yng Nghymru gyrraedd eu targed. Dywedodd Anthony fod gan NFU Cymru rôl wirioneddol bwysig yn hyn o beth. Soniodd Rachel nad yw'n cael ei grybwyll efallai yn y Strategaeth Tyfu Gyda'n Gilydd oherwydd efallai ei fod yng ngweledigaeth Sero Net yr NFU. Mae Gweledigaeth Sero Net yr NFU erbyn 2040 yn sero net ar draws Cymru a Lloegr; nid yw'n ddisgwyliad y bydd ffermydd unigol yn cyrraedd sero net yn unigol. Mae'n amlinellu'r potensial ar draws y tair colofn o wella effeithlonrwydd amaethyddol, gwella atafaelu carbon a rôl ynni adnewyddadwy. Mae hefyd yn darparu ffigurau ar draws y tair colofn hynny a lefel y gweithredu y byddai ei hangen i gyflawni Sero Net erbyn 2040 ledled Cymru a Lloegr.

49. Dywedodd Ruth fod rhaid i bob ffermwr ddeall beth sy'n iawn i'w fusnes fferm a'r hyn sy'n werthfawr i'r fferm nawr ac yn y dyfodol. Mae cyfle i feddwl am yr effaith ar swyddi gwledig a deall beth allai'r adnodd hwnnw fod yn y dyfodol os byddwn yn gweithredu neu'n newid nawr. Mae cefnogi sero net yn mynd i fod yn bwysig iawn i ddeall ar gyfer beth y gellir defnyddio'r adnodd hwnnw ar y fferm ac, yn fwy eang, yng nghyd-destun yr economi wledig. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen cymorth ar amaethyddiaeth, gan gynnwys hyfforddiant, dealltwriaeth o'r farchnad bren a hefyd dealltwriaeth o'r math o economi y gallai hynny ei chreu mewn perthynas â busnes fferm.

   O ran creu 180,000 hectar o goetir yng Nghymru, awgrymodd Ruth fod y ffordd y cyflwynwyd hyn yn ymddangos braidd yn negyddol. Roedd yn ymddangos y byddai llwythi o ffermydd yn cael eu prynu i greu coetiroedd 100% i gyrraedd y targed hwnnw. Dywedodd Ruth mai'r hyn y mae'n ei ddweud mewn gwirionedd yw mai drwy newidiadau bach ar bob coetir (yn dibynnu ar fforddiadwyedd a graddfa'r fferm) y bydd hyn yn cael ei gyflawni ac nid drwy greu llawer o goetir ar lond dwrn o ffermydd yn unig.

   Dywedodd Rachel fod y ffigurau hynny yn yr adroddiad a bod hyn yn neges i'r llywodraeth. Mae hwn yn ddarn o waith lobïo ac mae'n gwbl glir bod dwy ffordd y gallwch wneud hyn. Rydym eisoes yn gweld tir yn cael ei gipio yng nghymunedau Cymru. Fel arall, gallwn lunio polisïau a mesurau sy'n ei wneud mewn ffordd sy'n cyd-fynd â systemau ffermio. Dywedodd Rachel fod hwn yn ddewis i lunwyr polisi a bod rhaid i ni fachu eu sylw gan fod rhywfaint o'r naratif eisoes ychydig yn ddiystyriol o bryderon cymunedau gwledig.

## Eitem 6 Diweddariadau CNC

50. Soniodd y Cadeirydd fod Papur Diweddaru wedi'i ddosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod a oedd yn cynnwys dolenni i ragor o wybodaeth. Gofynnodd Zoe a oedd unrhyw adborth neu sylwadau ynghylch yr eitemau yn y ddogfen.

51. Cyflwynodd Ruth Jenkins, CNC, y diweddariadau ychwanegol canlynol:

    - Dosraniad ffynonellau: Derbyniodd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith dosrannu ffynonellau mae DCWW yn ei wneud mewn perthynas ag afonydd ACA. Dywedodd Ruth fod CNC yn edrych ar y gwaith hwn ar hyn o bryd, yn enwedig o ran y data a'r modelu.

    - Cynllun Grantiau: Wedi'i ddiweddaru fel bod gallu i roi grantiau am gyfnod o ddwy flynedd o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Mae CNC wedi gwneud rhywfaint o waith ar y themâu ar gyfer y grantiau hynny. Gellir rhannu rhagor o wybodaeth unwaith y bydd mwy o waith wedi'i wneud i ddiffinio'r themâu hynny.

52. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach ynghylch Diweddariadau CNC.

## Eitem 5 Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Undeb Amaethwyr Cymru / NFU Cymru / CFfI Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru

53. **Undeb Amaethwyr Cymru**: Soniodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, fod cydweithwyr wedi ymateb i amryw o ymgynghoriadau diweddar, gan gynnwys yr ymgynghoriad ar drethi lleol ar ail gartrefi, tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i gynllun Sero Net Cymru, a'r ymgynghoriad ar saethu a thrapio, ac wedi darparu tystiolaeth ysgrifenedig i Dŷ'r Cyfreithiau ar gytundeb masnach Seland Newydd. Mae'r mater o gipio tir hefyd yn bwnc pwysig iawn i Undeb Amaethwyr Cymru ar hyn o bryd.

54. **NFU Cymru:** Ategodd Rachel Lewis-Davies lawer o ddiweddariad Bernard ynghylch ymatebion i ymgynghoriadau. Soniodd Rachel fod ymgyrch barhaus fel rhan o'r Strategaeth Tyfu Gyda'n Gilydd, a'u bod wrthi'n croesawu ASau i ffermydd ledled Cymru i blannu coeden.

55. **CFfI Cymru:** dim diweddariadau pellach.

56. **Confor:** Rhoddodd Anthony Geddes yr wybodaeth ddiweddaraf am yr archwiliad dwfn ynghylch strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren a ffeibr. Tynnodd Anthony sylw at y ffaith bod yr ymateb i'r astudiaeth sgiliau wedi'i gyhoeddi. Mae Confor hefyd yn cydgysylltu cyfarfod cyntaf y grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar goedwigaeth ar gyfer y Flwyddyn Newydd ac mae'r grŵp hwn yn chwilio am Gadeirydd newydd.

57. **CLA:** Roedd angen i Fraser McAuley adael y cyfarfod ond soniodd yn gyflym am Gynhadledd Busnesau Gwledig CLA a gynhelir yn Llundain ddydd Iau 2 Rhagfyr.

58. **TFA:** Soniodd Dennis Matheson TFA Cymru ei fod wedi mynychu cyfarfod diweddar fel rhanddeiliad Taliadau Gwledig Cymru ac, am yr eildro, cododd y cwestiwn ynghylch eithrio tir â choed o'r cynllun taliad sylfaenol. Nawr ein bod wedi ymadael â'r UE, awgrymodd Dennis y dylent ystyried ailedrych ar y rheolau gan ei fod yn mynd yn gwbl groes i bolisi'r llywodraeth.

## Eitem 8 Gweithdy Datganiadau Ardal a’r Fforwm

59. Cadarnhaodd Bronwen Martin, CNC, y bydd cyfres o bum gweithdy rhithwir 2 awr o hyd ar themâu penodol dros y misoedd nesaf, yn cynnwys Rheoli Llifogydd yn Naturiol, coetiroedd, coed a gwrychoedd ar ffermydd, tir comin, bryniau iach a rhwydweithiau bwyd.

60. Y thema gyffredinol yw 'rheoli tir a dŵr yn gynaliadwy', a'r nod yw sicrhau cytundeb a dealltwriaeth ar y cyd o sut y gall cynhyrchu bwyd a ffeibr yn gynaliadwy ateb yr heriau cenedlaethol a lleol a helpu i sicrhau manteision lluosog i ffermwyr, rheolwyr tir a'r amgylchedd.

61. Mae'r cyntaf o'r pum gweithdy thema wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mercher 24 Tachwedd 2021, sef sesiwn ar goetir, coed a gwrychoedd ar ffermydd. Bydd hyn yn cynnwys sgyrsiau prosiect gan gyflwynwyr gwadd, fideo ac adborth a thrafodaeth.

62. Mae'r gweithdy Tir Comin hefyd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Mercher 8 Rhagfyr, 1.30pm-3.30pm. Cadarnhaodd Bronwen y bydd rhagor o wybodaeth a gwahoddiadau ar gyfer y sesiwn hon yn cael eu dosbarthu yr wythnos hon.

63. O ran y brif gynulleidfa ar gyfer y gweithdai, soniodd Bronwen eu bod ar gyfer sefydliadau sy'n aelodau o Fforwm Rheoli Tir Cymru, ond y byddai'n wych pe gellid

ymestyn y gwahoddiadau i'r gweithdai i gydweithwyr gan gynnwys cynghorwyr sirol ac aelodau pwyllgor a fydd â diddordeb mewn cymryd rhan ym mhob un o'r themâu hyn. Cynigiodd Bronwen gysylltu â'r mynychwyr ychwanegol posibl hyn pe bai aelodau'n anfon eu manylion cyswllt, neu gallai aelodau'r Fforwm anfon manylion y cyfarfod yn uniongyrchol atynt. Anogodd Bronwen yr aelodau i ddefnyddio eu rhwydweithiau eu hunain i ddarparu'r cymorth allweddol ac ychwanegu gwerth at y sgyrsiau hyn.

64. Gofynnodd Bernard a oes cap ar y niferoedd sy'n mynychu'r sesiynau rhithwir hyn. Cadarnhaodd Bronwen nad yw CNC am atal unrhyw un rhag mynychu'r sesiynau cyn belled â bod gan bobl yr wybodaeth am y cyfarfod a'r ddolen i ymuno ag ef.

## Eitem 9 Unrhyw fater arall

65. Ymunodd Ken Bevan, CNC, â'r cyfarfod i drafod prosiect yn y Gogledd-ddwyrain ac ymgysylltiad rhanddeiliaid.

66. Soniodd Zoe y bydd dyddiadau cyfarfodydd y Fforwm ar gyfer 2022 yn cael eu dosbarthu cyn hir.

67. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, fod adroddiad yn y Daily Telegraph ddydd Gwener fod CNC wedi penderfynu gwahardd hela ar lwybrau ar ystad goetir y corff. Dywedodd yr erthygl ei fod o ganlyniad i ymgynghoriad, a dyfynnwyd Dominic Driver. Gofynnodd Dennis a yw hela ar lwybrau yn dod o dan hawliau chwaraeon ai peidio oherwydd, os felly, nid oedd yn credu y byddai CNC yn gallu gwahardd hela ar lwybrau ar unrhyw dir lle'r oedd yr hawliau hynny'n cael eu cadw gan berchennog gwreiddiol. Fodd bynnag, os nad yw hela ar lwybrau yn dod o dan chwaraeon ond ei fod yn dod o dan, er enghraifft, hamdden, gallent ei wahardd er bod gan rywun arall yr hawliau chwaraeon. Os yw'n dal i ddod o dan chwaraeon a bod y perchennog gwreiddiol yn cadw'r hawliau hynny, mae hwn yn rhwystr i CNC gael mwy o dir ar gyfer plannu coed. Gofynnodd Dennis beth oedd yr ymgynghoriad hwn a beth yw'r diffiniad o hela ar lwybrau o ran hawliau chwaraeon?

***PG 03 Tachwedd: Ruth Jenkins, CNC, i egluro ymholiad Dennis Matheson, TFA, ynghylch hela ar lwybrau a hawliau chwaraeon.***

## Cau’r cyfarfod